# TAITH O WAELOD Y GARTH

## *Allan o Gwmpas Cefn Gwlad*

*Dyma'r ail o erthyglau am deithiau cylchol . Diolch unwaith eto i Julius Roskowski, Cerddwyr Llantrisant.*

***Tua 5.5Km (3.5M) 1.5 awr (gyda'r dewis i wneud 0.5Km ychwanegol) Llwybr – dringo am gyfnod hir o 2 filltir gyda rhai rhannau serth.***

**Disgrifiad**


Dechreuwch ger yr Ysgol yng Ngwaelod Y Garth.

Mae'r pentref hynod hwn yn cynnwys nifer o fythynnod traddodiadol wedi eu cadw yn dda, adeiladwyd rhai yn wreiddiol ar gyfer gweithwyr yn y gweithfeydd haearn a brics lleol. Bu cloddio am adnoddau naturiol yr ardal dros y canrifoedd yn arbennig am haearn. Ar ddiwedd y 16eg ganrif codwyd ffwrnesi haearn ar safle ger yr afon, gan osod trywydd a barhaodd yng ngwaith Cwmni Haearn Pentyrch a fu'n gweithio hyd yr 1890'au.

Ewch lan y pentref (i ffwrdd o Ffynnon Daf). Trowch i'r chwith ger Tafarn Gwaelod y Garth a dringwch i fyny'r ffordd nes cyrraedd troad siarp i'r chwith. Ewch syth ymlaen ar hyd llwybr garw sy'n arwain at gamfa a giât. Ewch drwy'r giât ac ymlaen ar hyd y llwybr am tua 700m i Fferm Lan gan gymeryd y fforch i'r chwith wrth ei gyrraedd. Cerddwch drwy glos y fferm ac i'r lôn tu hwnt.

Ewch ymlaen ar hyd y lôn nes cyrraedd gât metel ar y ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd. Cymerwch y fforch i'r chwith lan y lôn i fferm Garth Fawr. Croeswch y gamfa, gwyrwch i'r dde yn dilyn y lôn ac yna cymerwch y llwybr i'r chwith tuag at adfeilion hen fferm. Parhewch ar hyd y llwybr lan nes cyrraedd pen Mynydd y Garth.

O'r fan hyn mae golygfeydd ysblennydd. Gellwch weld cymoedd y Rhondda, Cynon a Thaf . Ac i'r de gwelwch arfordir Caerdydd a'r Fro a thros Fôr Hafren i Wlad yr Haf




Mae dau ddewis i ddychwelyd, naill ai dros ben y Garth neu ffordd haws ond hirach yn y cwm.

**UN**

O'r safle Trig wynebwch y môr. Islaw i'r twmpath mae llwybr defaid yn croesi copa'r mynydd. Cymerwch y ffordd i'r chwith tuag at Ffynnon Taf yna ger diwedd y mynydd ewch ar lwybr i'r dde tuag at rhan creigiog gyda golygfeydd arbennig o'r cwm islaw. Gwyrwch i'r dde cyn y creigiau, ar hyd llwybr cul yn arwain ar hyd ochr y mynydd.

Parhewch i gerdded tuag at nant a sgwd fach; gwyrwch i'r chwith ac ewch lawr i'r ffordd.

**DAU**

O'r safle Trig, ewch ar hyd y llwybr amlwg tuag at Bentyrch (cyfeiriad y de). Ymunwch â'r ffordd ac ewch syth ymlaen dros y grid anifeiliaid i'r gyffordd T. Trowch i'r chwith ac ar ôl 10m ewch i fyny dros y gamfa yn y clawdd ar eich chwith. Cymerwch ffordd tua'r dde ar draws y cae i gamfa. Ewch dros y gamfa ac ewch syth ymlaen a thipyn bach i'r chwith nes cyrraedd llwybr hen lôn. Dilynwch y lôn syth ymlaen nes cyrraedd camfa arall. Ewch dros y gamfa a pharhau i'r un cyfeiriad gan gadw y coed i'r chwith nes cyrraedd y fferm. Ewch trwy dair gât heibio'r hen adeiladau a dilynwch y lôn i gamfa ar y ffordd. Croeswch y gamfa a throwch i'r dde lawr y ffordd nes cyrraedd y llwybr ar y dde.

**Y Ddwy Ffordd**

Cymerwch y llwybr drwy'r caeau i gamfa i mewn i'r goedwig; trowch i'r dde a dilynwch y llwybr i lawr trwy'r coed. Hwn yw Coed Rhiw'r Ceiliog Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gwarchodfa i nifer o blanhigion prin.

Dilynwch y llwybr heibio'r "groesffordd" a pharhewch i fynd lawr nes cyrraedd y ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd yn ôl i Ysgol Gwaelod y Garth.

## Rheolau Cefn Gwlad

Cofiwch ble bynnag yr ewch dilynwch Reolau Cefn Gwlad :-

- Mwynhewch gefn gwlad a rhowch barch i'r bywyd a'r gwaith sydd yno;
- Diogelwch rhag achosi tân;
- Cloiwch pob gât;
- Sicrhewch fod eich ci dan reolaeth agos;
- Arhoswch ar y llwybrau cyhoeddus ar draws fferm dir;
- Defnyddiwch y gatiau a'r camfa i groesi perthi, ffensus a waliau;
- Gadewch lonydd i anifeiliaid, cnydau a peirianwaith;
- Ewch a'ch sbwriel adref;
- Helpwch i gadw dŵr yn lân;
- Amddiffynwch fywyd gwyllt, planhigion a choed;
- Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd gwledig;
- Peidiwch â gwneud sŵn di-bwrpas.